



Archwilio gyrfaoedd yn y Swyddfa Dywydd

1 Dywedwch wrth y grŵp fod amrywiaeth enfawr o yrfaoedd ar gael yn y Swyddfa Dywydd. Eglurwch eu bod yn mynd i ddarllen cartŵn a fydd yn caniatáu iddynt archwilio ystod o yrfaoedd yn y Swyddfa Dywydd. Gofynnwch i bawb ddarllen y cartŵn 'Arwyr y tywydd' a chylchu neu ysgrifennu unrhyw rolau swydd y gallant eu hadnabod.

2 Gofynnwch am wirfoddolwyr i alw allan yr hyn a ddarganfuwyd, neu defnyddiwch y rhestr isod i helpu i ysgogi'r grŵp. Esboniwch fod y cymeriadau yn y stori hon yn seiliedig ar bobl go iawn yn gweithio yn y Swyddfa Dywydd fel:

- Peiriannydd Gwasanaethau Maes
- Rheolwr mewn Arsylwadau Awyr Uchaf
- Peiriannydd Meddalwedd Radar

Yn seiliedig ar bob rôl yn y stori, a all pawb ddyfalu beth mae'r swyddi hyn yn eu cynnwys?

3 Esboniwch eich bod nawr yn mynd i ymchwilio i ôl-stori gyrfa pob cymeriad. Rhannwch y grŵp yn dimau o 3-4. Rhowch gerdyn gwahanol 'ôl-stori gyrfa' i bob grŵp (ar dudalennau 3 i 5) a gofynnwch iddynt ei ddarllen yn eu grwpiau.



15 munud



Gwaith grŵp



Cardiau stori
cefn gyrfa



Arwyr y tywydd
cartŵn

4 Gofynnwch i bob grŵp dreulio ychydig funudau'n trafod ac yn cofnodi atebion i'r cwestiynau canlynol:

- Sut mae swydd y cymeriad hwn yn ei helpu i weithio gyda'r tîm i ddatrys y broblem yn y stori?
- Rhestrwch yr holl sgiliau y gallant ddod o hyd iddyn nhw yn y cartŵn ac ôl-stori eu cymeriad. Sut maen nhw'n dangos y sgiliau hyn yn eu gwaith? E.e. Mae Sophie yn arddangos cyfathrebu da a datrys problemau trwy weithio'n agos gydag Aaron i ddod o hyd i ateb.
- Ble mae pobl ifanc yn arddangos sgiliau tebyg yn eu bywydau eu hunain? E.e. Er mwyn rhoi cyflwyniadau da, mae angen cyfathrebu llafar da, gan ddefnyddio'u sgiliau trefnu i gynllunio parti pen-blwydd neu ddigwyddiad ysgol, a datblygu gwaith tîm trwy glwb chwaraeon neu hamdden.

5 Dewch yn ôl at eich gilydd a gofyn i bob grŵp rannu ychydig o'u hatebion.

Estyniad dewisol

Gofynnwch i grwpiau ymchwilio llwybrau eraill i ddechrau gweithio yn un o'r gyrfaoedd hyn, gan ofyn i'w hunain:

- Pa gymwysterau sydd eu hangen?
- Pa fathau o sgiliau a rhinweddau sy'n bwysig?
- Pa bynciau sy'n ddefnyddiol?
- A oes gwahanol gynlluniau hyfforddi ar gael? Gallant ddefnyddio'r dolenni canlynol fel manau cychwyn ar gyfer eu hymchwil:

[icould.com](https://www.icould.com)

[prospects.ac.uk](https://www.prospects.ac.uk)

[metoffice.gov.uk/about-us/careers/your-career](https://www.metoffice.gov.uk/about-us/careers/your-career)

Myfyriwch ynghylch faint o wahanol opsiynau a chyfuniadau y gellir eu harchwilio. Anogwch y bobl ifanc i ddefnyddio'r technegau a'r cwestiynau hyn wrth chwilio am swyddi eraill y gallai fod ganddynt ddiddordeb.



20 munud



Gwaith grŵp

Cardiau Ôl-stori Gyrfa

Sophie Peiriannydd Gwasanaethau Maes

Sut olwg sydd ar ddiwrnod yn eich swydd?

Gall fy niwrnod amrywio llawer yn dibynnu a ydw i'n gweithio yn y maes (mae hynny'n golygu rhywle i ffwrdd o'r swyddfa) neu yn y swyddfa. Yn y swyddfa, dw i fel arfer yn adeiladu a phrofi systemau arsylwi ar y tywydd neu'n paratoi offer i'w gosod. Pan ydw i allan yn y maes, y rhan fwyaf o'r amser dw i'n gosod neu'n trwsio offer newydd i sicrhau bod popeth yn gweithio fel y dylai er mwyn trosglwyddo gwybodaeth bwysig i'r Pencadlys.

Sut wnaethoch chi gyrraedd eich swydd?

Dechreues i yn y Swyddfa Dywydd ar ôl coleg, heb unrhyw brofiad peirianeg o gwbl. Yn fy mlwyddyn gyntaf, dechreues brentisiaeth a chwblhau cwrs mewn Peirianeg, ac yna cwrs mewn Peirianeg Drydanol/Electronig. Gwnes i hyn am ddwy flynedd wrth gael profiad gwaith ymarferol. Gwnes i hefyd rai cyrsiau ychwanegol ar systemau radar.

Pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eich swydd?

Yn bendant mae angen i chi weithio'n dda mewn tîm ac wrth ddatrys problemau. Gall cyfuno creadigrwydd â gwybodaeth dechnegol fod yn fonws mawr hefyd - mae'n help mawr os gallwch edrych ar her a meddwl yn greadigol am atebion posibl.

Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich swydd?

Mae cyrraedd y gwaith gyda chymaint o wahanol dimau, a theithio i leoedd newydd a diddorol, bob amser wedi bod yn rhan wych o'r swydd. Mae pob diwrnod yn wahanol! Mae hefyd wedi bod yn ddefnyddiol iawn hyfforddi ac ennill cyflog ar yr un pryd - rwyf bob amser wedi teimlo fy mod yn cael cefnogaeth wirioneddol i barhau i ddysgu sgiliau a chael profiadau newydd.



Cardiau Ôl-stori Gyrfa

Jaylin Rheolwr mewn Arsylwadau Awyr Uchaf

Sut olwg sydd ar ddiwrnod yn eich swydd?

Rwy'n gofalu am bopeth sy'n ymwneud â rhedeg y radar tywydd a sicrhau eu bod yn gweithio. Mae fy niwrnod fel arfer yn dechrau gyda gwirio pob radar; mae gennym feddalwedd monitro sy'n caniatáu i mi weld yn gyflym sut maen nhw'n perfformio. Os nad yw rhywbeth yn iawn, fy ngwaith i yw sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu gwybod a bod y camau cywir yn cael eu rhoi ar waith fel y gallan nhw ei drwsio cyn gynted â phosib. Rwyf hefyd yn cynnal ymweliadau cynnal a chadw cynlluniedig - mae angen cynnal a chadw'r radar yn rheolaidd, ac i gytuno ar yr amserlen rhaid i mi siarad â thimau peirianeg gwasanaethau maes ledled y DU.

Sut wnaethoch chi gyrraedd eich swydd?

Wrth gychwyn fy swydd, roedd yn ddefnyddiol fy mod i wedi astudio gwyddoniaeth yn yr ysgol. Roeddwn i'n mwynhau gwyddor yr amgylchedd a daearyddiaeth yn arbennig hefyd, er nad oeddwn i wir yn gwybod beth roeddwn i am ei wneud. Yn y pendraw, ymunais â'r Llynges fel meteorolegwr ac eigionegwr, a dyna lle y dechreuais ddysgu fy nghreffft yn y swydd. Gwnes i hefyd radd sylfaen yn y Brifysgol Agored. Dyna a barodd imi fynd i'r Swyddfa Dywydd yn eu tîm Gweithrediadau Arsylwi.

Pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eich swydd?

Ar gyfer fy swydd i, mae rheoli amser, trefnu, cynllunio ymlaen llaw a gweithio'n dda gydag eraill i gyd yn bwysig iawn. Gall fod yn gyflym iawn, ac mae angen i chi gadw pen clir, gwrando'n ofalus a theimlo'n hyderus wrth arwain. Ond mae'r cyfan yn dod wrth ymarfer - os ydych chi'n dwlu ar eich swydd, bydd y pethau hyn yn dod gydag amser!

Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich swydd?

Un o'r pethau rwy'n ei hoffi fwyaf am fy swydd yw teithio. Ddwywaith y flwyddyn rwy'n cael mynd i gwrdd â phobl sy'n gwneud fy swydd mewn rhannau eraill o Ewrop - roedd fy nhaith ddiwethaf i Wlad yr Iâ. Nid yn unig roedd y gweithdai'n ddiddorol iawn, ces i weld Golau'r Gogledd!



Cardiau Ôl-stori Gyrfa

Aaron Peiriannydd Meddalwedd Radar

Sut olwg sydd ar ddiwrnod yn eich swydd?

Mae fy niwrnod yn bennaf yn cynnwys defnyddio cod rhaglennu ac ysgrifennu i wella'r feddalwedd sy'n rhedeg yn y safleoedd radar tywydd. Mae'r feddalwedd hon yn rheoli popeth y mae'r radar yn ei wneud - er enghraifft, pa mor gyflym mae'r ddysgl yn troelli, pa mor aml y mae'n trosglwyddo ac am faint o amser ... mae'n rhaid i mi fod yn ofalus, oherwydd gallai hyd yn oed nam eithaf bach yn y feddalwedd gau'r rhwydwaith radar i lawr os nad yw rhywun yn sylwi arno mewn pryd!

Sut wnaethoch chi gyrraedd eich swydd?

Astudiais fathemateg a chyfrifiadura ar gyfer Safon Uwch, yna gwnes i Gyfrifiadureg yn y brifysgol, a oedd yn bendant yn ddefnyddiol. Pan adewais y brifysgol, treuliais bedair blynedd yn gweithio fel rhaglennydd, a helpodd imi ddysgu am beirianneg meddalwedd. Yna gwnes i radd meistr mewn Eigioneg.

Pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eich swydd?

Yn bendant, mae angen i chi fod yn ddatryswr problemau da, ac mae'n bwysig iawn datblygu dull tawel, methodolegol o edrych ar bosau a meddwl drwy atebion. Mae gallu gwrando a chyfathrebu â thimau eraill yn allweddol hefyd.

Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich swydd?

Mae bob amser yn werth chweil gweld sut mae meddalwedd dw i wedi'i hysgrifennu yn gwneud i'r radar wneud rhywbeth newydd a defnyddiol. Mae hefyd yn deimlad da gwybod bod y gwaith dw i'n ei wneud yn helpu i gadw pobl yn ddiogel, trwy helpu'r radar i weithredu a chael gwybodaeth bwysig i'r bobl iawn. Mae mynd i fyny at y radar yn hwyl hefyd - mae'n braf cael newid golygfa, ac mae golygfeydd gwych oherwydd maen nhw i gyd wedi'u lleoli mewn tyrau ar ben bryniau. Mae'n eithaf epig!

